cbac wjec

# TAG UWCH

1000N60-1

Z22-1000N60-1

**DYDD IAU, 16 MEHEFIN 2022 – BORE**

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 6

## Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun

## (Papur Ysgrifenedig)

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylech ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **1 AWR** ar Adran A ac **1 AWR** ar Adran B.

Cofiwch dreulio amser digonol yn cynllunio eich atebion.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Cofiwch mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A – GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH

**1.** Darllenwch yn ofalus y darn isod sy'n sôn am ddau gariad sydd wedi gwneud addewid i briodi.

Yna, ysgrifennwch **draethawd** yn dadansoddi **cynnwys** ac **arddull** y darn.

Wrth ddadansoddi dylech gofio:

- defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau
- cyfeirio at **weithiau llenyddol** eraill yr ydych yn gyfarwydd â nhw sydd yn ymdrin â **thema neu themâu** tebyg gan drafod a yw'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol.

Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd yn ogystal â thestunau a astudiwyd gennych. [40]

Ym mis Mai roedd y ddau wedi cytuno i briodi. Gwnaed y penderfyniad pan oedden nhw'n wyth oed. Roedd yntau wedi dwyn siswrn *gwinio ei fam ac wedi sleifio i'r hen wardrob bren yn yr ystafell wely, cyn torri dyrneidi o ffwr oddi ar un o'i chotiau gorau. Rhesymodd na welai hi ei heisiau am mai prin oedd y cyfleoedd i wisgo'r *mink* yn Llwyncelyn. Roedd ei gariad wedi bod ym mherfeddion bag gwau ei mam hithau, yn rhaflo tameidiau o wlân o ryw siwmper wedi hanner ei gwau. Byddai ei mam byth a beunydd yn datod rhyw hen siwmperi er mwyn eu hail-wau i'w merch neu i un o'i brodyr. Doedd dim cot ffwr ganddi hi.

Cwrdd ar bwys y bont wnaethon nhw wedyn cyn gosod y ffwr a'r gwlân ar allor honno, a chuddio. Plygodd y ddau yn eu cwrcwd ynghanol y mwswg gan ddal eu hanadl. Yna, ymhen ychydig, daeth sŵn adenydd. Plu. Adar bach yn disgyn, yn *cocio'u pennau o un ochr i'r llall. Bydden nhw'n neidio'n agosach wedyn cyn casglu'r rhoddion er mwyn eu plethu i'w nythod eu hunain. Chwarddodd yntau pan welodd fod pob *pripsyn wedi mynd a rhoddodd gusan fawr ar ei boch. Gwrandawodd hithau ar dincial ei chwerthin yn gymysg â sŵn adenydd.

Un ar bymtheg oedd hi pan ddechreuodd hi gasglu'r **bottom drawer* ynghyd. Ychydig iawn oedd gan ei mam i'w roi iddi. Dim ond *siol fagu a hen garthen a lliain bwrdd gwyn. Penderfynodd ei mam fod angen addurno honno ac fe fyddai'n eistedd y tu ôl i'w merch yn edrych dros ei hysgwydd wrth ei dysgu i bwytho'r defnydd gwyn â brodwaith. Byddai'r nodwydd galed yn gadael ei hôl yng nghroen tyner ei bysedd, ac weithiau byddai'n rhaid iddi ychwanegu addurn er mwyn cuddio smotyn o waed. Amsugnai'r defnydd gwyn yr hylif fel papur blotio.

Gwell o lawer oedd ganddi'r siol fagu wlân liw hufen, a chan mai hi oedd yr unig ferch, hi gâi honno. Un blaen oedd hi, wedi'i gwisgo mewn mannau. Weithiau, fe fyddai'n ei thynnu allan o'r drôr ac yn ei thaenu o gwmpas ei hysgwyddau gwynion, tenau, a'r gwlân yn arw ac yn gynnes ar ei chroen. Pan fyddai hi'n siŵr bod ei mam a'i thad a'i brodyr yn eu gwelyau, byddai hi'n esgus bod yna fabi'n cysgu'n dawel dan y siol, wedi ei wasgu'n gynnes at ei brest.

Pan ddaeth y rhyfel, fe fyddai'n anfon plu ati. O bob gwlad. O wahanol liwiau. Weithiau, byddai'n tynnu llun yr aderyn ar gefn yr amlen, weithiau yn ceisio gwneud rhyw nodiant du, gan roi syniad o gân perchennog y bluen. Fyddai e byth yn sôn am yr ymladd, dim ond am yr ychydig amser hamdden oedd ganddo a'r *cystudd fyddai'n ei gael weithiau gan y swyddog am grwydro i chwilio am blu. Byddai hithau'n gludo'r plu i sgrap-bwc glas ac yn edrych ar eu lliwiau cyn mynd i gysgu. Roedd rhai ohonynt yn smotiau drostynt. Rhai yn symudliw yn y golau. Rhai bron yn ddu fel hen waed. Cofiai, wrth edrych arnyn nhw, iddo ddweud wrthi unwaith fod chwant pobol am blu hardd wedi mynd yn salwch arnyn nhw. Bod pobol wedi ysgubo ar draws y byd yn rhwygo nythod a thawelu coedwigoedd er mwyn eu casglu. Dim ond er mwyn i ryw ddynion gael eu gwisgo ar eu hetiau a'u cotiau a'u lifrai. Dim ond iddyn nhw gael teimlo'n bwysig. Cofiodd iddi grio am ddiwrnod cyfan ar ôl clywed hyn a hyd yn oed heddiw, yn nyfnder y nos, fe fyddai'n clywed cân yr adar colledig hynny, oedd wedi eu distewi gan chwant annioddefol.

Un wythnos, ddaeth 'run llythyr. Na chwaith yr wythnos wedyn. Fe ddysgodd hithau mai gobaith oedd un o'r beichiau trymaf y gallai unrhyw un ei gario. Gosododd hi'r plu yn y *bottom drawer* gyda'r lliain bwrdd a'r siol fagu a'i gau.

*****

Roedd nifer yn dal i briodi ym mis Mai. Chwilio am ei het roedd hi ar gyfer priodas merch ei brawd ieuengaf pan agorodd hi'r *bottom drawer*. Roedd y plu yn ffyrnig yn eu lliwiau, heb bylu dim ar hyd y blynyddoedd. Teimlodd nhw, a sylwi sut roedd amser wedi gwisgo croen ei dwylo. Cododd y siol, a gwasgu ei hwyneb iddi cyn ei dal o gwmpas ei hen ysgwyddau. Roedd y ffenest ar agor ac awel haf cynnar yn cario sŵn yr adar yn yr ardd, ac am eiliad fe glywodd ei lais. Cofiodd y gusan gyntaf honno ar ei boch. Yna, gan gofio'r rhoddion ar y bont, a'i garedigrwydd at y rhai oedd eisiau adeiladu nyth, fe gydiodd yn yr hen siol, ei phlygu a'i chario i lawr y grisiau.

*gwinio – gwnïo
*pripsyn – darn bach
*cocio – troi
**bottom drawer* – yr arfer o gasglu pethau ar gyfer eich cartref pan fyddwch am briodi
*cystudd – cerydd
*siol – siôl

## ADRAN B – Y GYMRAEG MEWN CYD-DESTUN

**2.** Lluniwch **gyfarwyddiadau** i bobl ifanc sy'n mynd i goleg neu brifysgol am y tro cyntaf fis Medi.

Bydd angen i chi ddewis a dethol ffeithiau addas ar gyfer y cyfarwyddiadau, rhoi trefn arnynt ac ysgrifennu'n gryno ac i bwrpas. Mae cyfle i chi dynnu ar eich profiadau/gwybodaeth bersonol pan fo'n briodol. [40]

Cyfnod cyffrous
Dechrau newydd
Angen paratoi a chynllunio
Llawer i'w ystyried



**Ble i fyw**
- cryfderau a gwendidau i bob dewis e.e. aros gartref yn arbed arian ond yn cynnig llai o annibyniaeth a llai o gyfle i ehangu cylch ffrindiau
- y rhan fwyaf o wariant myfyrwyr yn mynd ar lety
- gadael cartref yn gam mawr
- cyswllt rhwng llwyddiant academaidd a hapusrwydd – lle da i fyw yn bwysig
- Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn nodi 16 categori o lety ar gael – o ystafelloedd moethus gydag ystafell ymolchi i aros mewn tŷ preifat
- dewis addas yn bwysig

**Grantiau a benthyciadau**
- ceisiadau i Cyllid Myfyrwyr Cymru cyn diwedd y gwanwyn
- ffioedd dysgu yn mynd yn syth i'r brifysgol
- grantiau a benthyciadau ychwanegol ar gael ar gyfer costau byw (trwy gais)
- talu'n ôl – 9% o unrhyw gyflog dros £27,295 – dod yn syth o'ch cyflog
- angen gadael i gwmni Benthyciadau Myfyrwyr wybod am unrhyw newid cyfeiriad yn y dyfodol

**Costau**
- ffioedd dysgu hyd at £9,000 y flwyddyn yng Nghymru
- costau teithio
- adnoddau dysgu
- costau byw



**Rheoli eich arian**
- cadw golwg ar incwm a gwariant
- siopa'n ddoeth
- gwerthu eiddo diangen
- arbed arian cyn mynd i'r brifysgol
- gwaith rhan-amser
- blwyddyn o waith cyn mynd i'r brifysgol
- cerdded nid talu am drafnidiaeth

**Iechyd a lles**
- cofrestru â meddygfa
- dysgu sut i goginio
- neilltuo amser i fwynhau
- creu amserlen i reoli llwyth gwaith
- ymuno â champfa/lawrlwytho ap cadw'n heini

**Diogelwch**
- cadw eiddo drud yn ddiogel
- cerdded mewn criw yn y tywyllwch

**Cymorth**
- swyddfa cyflogaeth myfyrwyr – rhestr o swyddi rhan-amser
- swyddog lles eich prifysgol
- undeb myfyrwyr

**Setlo**
- gwneud ffrindiau
- ymroi i'r gwaith
- rheoli eich amser
- mwynhau profiadau newydd



**DIWEDD Y PAPUR**